

Deddf Trwyddedu 2003 - Ffurflen Sylwadau

- gellir cyflwyno sylwadau o blaid neu yn erbyn unrhyw Gais am Drwydded Safle.
- darllenwch y Canllawiau Statudol cyn cyflwyno eich sylwadau ([Canllaw diwygiedig a gyhoeddwyd dan adran 182 Deddf Trwyddedu 2003 \(publishing.service.gov.uk\)](http://publishing.service.gov.uk))

Rhaid cwblhau'r datganiadau â * arnynt

*Eich enw:

*Cyfeiriad post ac e-bost:

.....
.....

Rhif Ffôn Cyswllt:

*Enw'r safle yr ydych yn cyflwyno sylwadau yn ei gylch:

.....

*Cyfeiriad y safle yr ydych yn cyflwyno sylwadau yn ei gylch:

.....
.....

Gweler isod y pedwar Amcan Trwyddedu. Nodwch unrhyw fanylion, gwybodaeth a/neu dystiolaeth i gefnogi eich sylwadau os gwelwch yn dda. Defnyddiwch dudalennau ar wahân os oes angen.

- atal trosedd ac anhrefn

.....
.....
.....
.....

Deddf Trwyddedu 2003 - Ffurflen Sylwadau

- diogelwch y cyhoedd

.....
.....
.....
.....

- atal niwsans cyhoeddus

.....
.....
.....
.....

- amddiffyn plant rhag niwed

.....
.....
.....
.....

Llofnod:.....

Dyddiad:.....

Dylid dychwelyd y ffurflen hon o fewn y Cyfnod Statudol. Gweler y nodiadau ar y dudalen nesaf.

Deddf Trwyddedu 2003 - Ffurflen Sylwadau

Nodiadau

1) os byddwch yn cyflwyno sylwadau, ac os ystyrir eu bod yn berthnasol, bydd cyfle i chi gymryd rhan mewn cyfarfod cyfryngu a/neu fynychu gwrandawriad cyhoeddus o Is-bwyllgor yr Awdurdod Trwyddedu ac unrhyw drafodion apelio dilynol. Os na fyddwch yn mynychu'r cyfarfod am unrhyw reswm, bydd dal yn ofynnol i'r Pwyllgor ystyried eich sylwadau

2) p'un a ydych yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cais, bydd yn rhaid i unrhyw sylwadau gael eu dychwelyd i'r swyddfa hon o fewn y cyfnod statudol, a fydd yn dechrau ddiwrnod ar ôl cyflwyno'r cais i'r Awdurdod. Y cyfnod statudol yw 28 diwrnod ar gyfer amrywiad llawn neu 10 diwrnod gwaith ar gyfer mân amrywiad

3) mae'n rhaid i'r sylwadau ymwneud ag un neu fwy o'r pedwar amcan trwyddedu. Yr amcanion yw:

- **atal trosedd ac anhrefn.** Mae'r amcan hwn yn ymwneud ag unrhyw drosedd, anhrefn neu ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y safle neu sy'n gysylltiedig â rheoli'r safle. Nid yw'r ymgeisydd/deiliad y drwydded yn gyfrifol am ymddygiad unigolion unwaith y byddant wedi gadael y safle
- **diogelwch y cyhoedd.** Mae'r amcan hwn yn ymwneud â diogelwch y cyhoedd ar y safle, h.y. diogelwch tân, cylchedau trydanol, goleuadau, diogelwch a chapasiti'r adeilad, cymorth cyntaf ac ati
- **atal niwsans cyhoeddus.** Fe allai'r amcan hwn ymwneud â materion megis oriau gweithredu, sŵn yn deillio o'r safle, dirgryniadau, goleuadau, sbwriel ac ati
- **amddiffyn plant rhag niwed.** Mae'r amcan hwn yn ymwneud ag amddiffyn plant rhag gweithgareddau ar y safle pan fyddant yn bresennol. Mae'r gyfraith eisoes yn darparu amddiffyniadau arbennig mewn perthynas â phlant dan 18 yn prynu alcohol

4) mae'n bosibl y bydd eich sylwadau yn cael eu hanfon ymlaen at yr ymgeisydd er mwyn rhoi cyfle iddynt ymateb i'ch pryderon. Mae'n bosibl y bydd eich sylwadau hefyd yn cael eu cyhoeddi yn yr adroddiad i'r Is-Bwyllgor Trwyddedu, a fydd ar gael i'r cyhoedd. Os bydd unrhyw apel yn cael ei wneud gan unrhyw barti yn dilyn hynny, bydd eich sylwadau'n cael eu defnyddio. Bydd enwau a chyfeiriadau ond yn cael eu hepgor o unrhyw Adroddiad Cyhoeddus yn amodol ar Reoliadau'r Ddeddf Drwyddedu (2003)

Deddf Trwyddedu 2003 - Ffurflen Sylwadau

5) dychwelwch y ffurflen hon wedi'i chwblhau ynghyd ag unrhyw daflenni ymgynghori naill ai drwy'r post neu'n bersonol i'r: Swyddog Trwyddedu, Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Sir Ddinbych, Caledfryn, Ffordd y Ffair, Dinbych, LL16 3RJ

Neu ynghlwm mewn e-bost at: trwyddedu@sirddinbych.gov.uk

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau neu angen cyngor, cysylltwch â'r Tîm Trwyddedu ar 01824 706342